MaB Man and the Biosphere

# Cylchlythyr Parc Natur Penglais Newsletter

*Mae PNP ar Facebook: www.facebook.com/ParcNaturPenglais*

**Cylchlythyr PNP Rhif 59 Tachwedd 2025**

**Cyllido prosiectau a rhoddion** Mae Grŵp Cefnogi PNP wedi derbyn grant o £1200 gan Gyngor Tref Aberystwyth a bydd hyn yn darparu pedwar diwrnod o waith cynnal a chadw yn y Parc yr hydref a'r gaeaf hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Tref am eu cefnogaeth hael cyson sy'n gwneud y gwaith hwn yn bosibl.

Mae'r Grŵp Cefnogi yn dibynnu ar roddion gwirfoddol i dalu costau dyddiol a dylai unrhyw un sy'n dymuno helpu trwy wneud rhodd gysylltu â'r Trysorydd ar *gyg08pt@gmail.com*

Parc Natur Penglais

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

**Dydd Mercher 26 Tachwedd am 7pm**

**Canolfan Methodistaidd St Paul, Morfa Mawr**

Bydd sgwrs ar
***Living Wales – Planning Future Landscapes from Space***
gan
Yr Athro Richard Lucas (Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth)

**Sgwrs CCB** Bydd yr Athro Richard Lucas o Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear y Brifysgol, lle mae'n arwain Prosiect Cymru Fyw, yn rhoi'r sgwrs yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni ar 26 Tachwedd yn yr Octagon, Canolfan Fethodistaidd Sant Paul. Mae'r prosiect hwn yn defnyddio data lloeren, mesuriadau daear a modelu i fapio defnydd tir a mathau o gynefinoedd ar draws tirwedd Cymru a'r newidiadau sy'n digwydd.

**Diwrnodau Gwaith Gwirfoddol yn PNP** Canlyniad y ddau Ddiwrnod Gwaith Gwirfoddol olaf a ariannwyd gan grant Cyngor Tref 2024/25 oedd clirio eithin yn y Chwarel Uchaf ar 18 Ionawr a chynnal a chadw llwybrau ar 15 Chwefror; crafu mwd oddi ar ran isaf llwybr Cornel Cooper a'i ail-wynebu â cherrig ffres. Cwblhawyd y gwaith ar y llwybr ar ddiwrnod gwaith ychwanegol ar 1 Mawrth ac estynnwyd ef i gynnwys ail-wynebu'r grisiau ger mainc Mathur. Ariannwyd y diwrnod ychwanegol hwn o ddau rodd a dderbyniodd y Grŵp Cymorth y llynedd. Dyma oedd yr olaf o sesiynau gwirfoddol y Grŵp i gael eu goruchwylio gan Peter Drake.

Mae ei rôl bellach wedi'i chymryd drosodd gan Andy Bakewell, a oruchwyliodd y cyntaf o Ddiwrnodau Gwaith Gwirfoddol ar gyfer y tymor hydref/gaeaf hwn ar 22 Hydref, gan glirio mieri o ochr y prif lwybr i hyrwyddo sioe dda o glychau'r gog y gwanwyn nesaf. Dechreuwyd y gwaith gan aelodau'r Grŵp Cefnogi, ac ymunodd Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth â nhw yn y prynhawn. Mae ail ddiwrnod o glirio mieri wedi'i drefnu i wirfoddolwyr ar 19 Tachwedd, gan ddechrau am 10:00 yn y Llannerch y Ffawydd. Yn ogystal, mae diwrnod o glirio eithin yn y Chwarel Uchaf ac un diwrnod o gynnal a chadw llwybrau i'w trefnu ar gyfer y flwyddyn newydd.

Yn ystod yr haf, torrodd dau aelod o'r Grŵp Cefnogi, a oedd wedi'u hyfforddi'n addas, y llystyfiant ar hyd y llwybr drwy'r Estyniad, dan oruchwyliaeth Chris Harris, swyddog gwarchodfeydd y Cyngor Sir.

**Newidiadau i Bwyllgor y Grŵp Cymorth** Bydd dau aelod hirdymor o'r Grŵp Cefnogi, Len Kersley a Robert Griffiths, yn camu i lawr o'r Pwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i ddod.

Roedd Len yn un o'r aelodau sylfaenodd y Grŵp Cefnogi Parc Natur Penglais ym 1991, gan wasanaethu fel Ysgrifennydd i ddechrau ac yna fel Trysorydd o 2009/10 tan 2023. Drwy gydol yr amser hwn, mae wedi bod yn allweddol wrth wneud cais am grantiau ac wedi llwyddo i godi dros £30,000 i ariannu prosiectau newydd; er enghraifft, ehangu'r Parc i hyd at Bryn y Môr a chreu Llwybr y Chwarel Isaf, yn ogystal â gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn y Parc. Mae wedi bod yn wirfoddolwr rheolaidd ar ein Diwrnodau Gwaith; boed yn glirio mieri ac eithin, creu llwybrau newydd, plannu coed, adeiladu grisiau, gosod blychau adar ac ystlumod neu ail-wynebu llwybrau. Mae ei wybodaeth a'i arbenigedd ynghylch y Parc wedi bod yn hanfodol i arwain y Grŵp Cefnogi ac ni fyddai Parc Natur Penglais y lle gwych ydyw nawr, wedi'i fwynhau gan gynifer o bobl, heb ei fewnbwn diflino.

Mae Robert wedi bod yn aelod o'r Grŵp Cefnogi ers tua ugain mlynedd. Cyn hyn, roedd wedi bod yn ddefnyddiwr mynych o'r llwybrau drwy'r Parc a chafodd ei wahodd i ymuno â'r Grŵp ar ôl iddo fynychu sesiwn wirfoddoli yn gweithio ar gynnal a chadw'r prif lwybr. Fel Len, mae wedi bod yn gyfrannwr sylweddol at waith y Grŵp, gan fynychu Diwrnodau Gwaith Gwirfoddol yn rheolaidd ac roedd yn Gadeirydd o 2018 i 2023. Ei arbenigedd penodol fu cynllunio'r llwybr gorau ar gyfer llwybrau newydd, yn enwedig Llwybr y Chwarel Isaf yn dilyn y tanau a losgodd y rhan fwyaf o'r llystyfiant yn yr ardal yn 2023. Mae hefyd wedi gwneud llawer o waith wrth gynllunio llwybr posibl yn y dyfodol sy'n cynnwys pont dros Dingl Bryn y Môr i arwain i fyny Craig Glais.

**Bwthyn Penglais** Mae David Leighton wedi darparu'r ffotograff hwn o 1949 yn dangos hen Fwthyn Penglais (*i'r dde o'r canol*) a arferai fod wedi'i leoli tua phen deheuol yr hyn sydd bellach yn PNP. Adeiladwyd y tŷ ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel rhan o Ystâd Penglais. Ar ôl i'r ystâd gael ei chwalu roedd ganddo hanes brith ac erbyn y 1960au roedd yn cael ei ddefnyddio fel cwt sgowtiaid; yna aeth yn adfeiliedig a chafodd ei ddymchwel yn y pen draw ym 1970. Mae ei safle bellach wedi'i farcio gan ardal wastad o dir, ger lle mae'r prif lwybr PNP yn pasio pen uchaf Cae Melyn.



*© Crown Copyright: Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales: Aerofilms Collection*

Mae mapio hanesyddol yn dangos bod y tŷ wedi cael nifer o newidiadau yn ystod ei oes ond nid oes unrhyw ddelweddau daear o'r adeilad wedi dod i'r amlwg hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae lluniau awyr o ganol yr ugeinfed ganrif yn y Cofnod Henebion Cenedlaethol yn datgelu rhai manylion diddorol. Mae'r ddelwedd a ddangosir yma yn ddarn ehangwyd o ffotograff yng Nghasgliad Aerofilms. Mae'r olygfa, yn edrych i'r gogledd-ddwyrain, yn dangos Bwthyn Penglais ar ymyl y coetir i'r dde o'r hen chwarel. Er gwaethaf ei safon isel, mae'r ddelwedd yn awgrymu adeilad â rhywfaint o gymhlethdod a diddordeb pensaernïol.

**Cymdeithas Ddinesig Aberystwyth** Bydd sgwrs nesaf y Gymdeithas Ddinesig ddydd Iau 13 Tachwedd, pan fydd Caroline Palmer yn siarad am 'Richardesiaid Plas Penglais'. Cynhelir y sgwrs yn Neuadd Byddin yr Iachawdwriaeth, Heol Alexandra, Aberystwyth, yn dechrau am 7:30pm ac mae croeso i bawb fynychu.

**Arolygon ymlusgiaid yn PNP gan Wirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth** Mae'r arolwg amffibiaid ac ymlusgiaid a gynhaliwyd gan GCA yn 2024 mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ceredigion fel rhan o'r Arolwg Ymlusgiaid Cenedlaethol wedi parhau eleni, wedi'i drefnu gan Luke Baines gydag eraill o GCA. Mae cyfres o 32 o orchuddiau artiffisial (lloches) wedi'u sefydlu o amgylch PNP, lle gall yr anifeiliaid lochesu. Mae'r rhain wedi'u harchwilio ar bedwar ymweliad â'r safle a chofnodwyd nifer yr anifeiliaid. Canfuwyd yr un rhywogaethau ag yn 2024, gydag o leiaf bedwar Neidr Ddefaid, un Madfall Gyffredin a dau Lyffant Cyffredin.

**Blychau nythu PNP yn 2025** Oherwydd cyfuniad o newidiadau yn y cyfrifoldeb am fonitro'r blychau nythu a salwch, ni chafodd y blychau eu monitro'n llawn eleni. Gobeithir parhau ag arolwg llawn y flwyddyn nesaf.

**Gwersyllwyr yn PNP** Bu llawer llai o achosion o bobl yn gwersylla yn y Parc nag yn 2024. Yn gynharach eleni, cododd y Cyngor nifer o hysbysiadau yn nodi nad yw cysgu dros nos yn PNP yn cael ei ganiatáu.

Gyda diolch i Gyngor Tref Aberystwyth am ddarparu cyfleusterau argraffu, i'r rhai a ddanfonodd y copïau printiedig i dai lleol ac i’r cyfieithydd i’r Gymraeg. Paratowyd y cylchlythyr gan Steve Cuttle a bydd ar gael yn Saesneg a Chymraeg ar dudalen Facebook PNP a gwefan Grŵp Aberystwyth Gwyrddach.